

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 24 Mehefin 15, 2023 50c.

Oedfa'r Urdd



Sgriptiwyd Oedfa Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr yn Llanymddyfri eleni gan y Parchg Emllyn Dole, Caersalem, Pontyberem. Yn ystod y gwasanaeth hwnnw cafwyd unawd arbennig gan un o aelodau yr eglwys sef Roisin Bonar. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau am oedfa ragorol.

Deris Williams

Penodiad newydd yn Nhŷ John Penri

Y mae'n llawenydd datgan y penodwyd Mrs Meinir Williams fel Swyddog Gweinyddol rhan-amser i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Daw Meinir yn wreiddiol o Hirwaun, Aberdâr a'i magu yn un o blant eglwys Siloa. Ers blynyddoedd bellach bu'n byw yn y Tymbl Uchaf ac mae'n aelod yn eglwys Bethania yno.

Cafodd Meinir yrfa lwyddiannus fel athrawes ysgol, yn fwyaf diweddar yn ysgol gynradd Gymraeg Dewi Sant, Llanelli.

Edrychwn ymlaen yn fawr i'w chroesawu i'n plith yn Nhŷ John Penri ddechrau Medi.



GRYM A GOBAITH Y LOGO

Logo cyfarwydd i ni'r Cymry yw'r triongl gwyrdd, coch a gwyn. Rydym yn ei adnabod yn syth fel logo Urdd Gobaith Cymru. Fe'i gwelwyd wrth y cannoedd ers wythnosau ar hyd y priffyrdd oedd yn arwain o bell i Llanymddyfri, tref y Ficer Prichard a Williams Pantycelyn, ac i brifwyl hollol ragorol ein pobol ifanc yn Sir Gâr. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n trefnu, ac i bob un a fu'n cystadlu – ennill neu beidio. Ac os nad yw'n rhyfygus, diolch i'r Bod Mawr hefyd am yr wythnos heulog hirfelyn!



Siarad heb eiriau

Mae logo, sef symbol, yn bwerus am ei fod yn siarad â ni heb eiriau, yn llawn arwyddocâd, yn dweud stori. Mae'n siŵr bod logo'r Urdd yn dwyn atgofion yn ôl i lawer ohonoch chi am fynychu neu gystadlu yn eisteddfodau'r gorffennol. Atgofion hefyd am wyliau Llangrannog neu Lan-llyn – wythnosau lle roedd yr haul wastad yn tywynnu, digon o weithgarwch cyffrous ac, wrth gwrs, cwmni merched pert a bechgyn golygus!

Logo ein ffydd

Daw 'logo' o'r gair *logos* yng Ngroeg y Testament Newydd, a'i ystyr yw 'gair.' Mae Efengyl Ioan, yn ei brolog gogoneddus, yn disgrifio Iesu fel y Logos:

Y Gair (Logos) oedd yn bod ar y dechrau cyntaf. Roedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair.

(Ioan 1:1, beibl.net)

Iesu yw'r Gair, llais Duw ei hun, yn siarad wyneb yn wyneb â'i gyfoedion yn ystod ei fywyd daearol. Roedd e'n siarad eu hiaith hwy bryd hynny, a gyda ninnau heddiw trwy gofnod yr Efengylwyr yn y Beibl, yng ngoleuni yr Ysbryd Glân.

parhad ar dudalen 2

GRYM A GOBAITH Y LOGO - parhad

Iesu Grist yw symbol ein ffydd, y logo sydd â'r stori fwyaf erioed i'w hadrodd.

leithoedd Iesu

Ystyriwch am funud beth mae iaith yn ei olygu. Rydym yn clywed iaith, yn deall iaith, yn darllen iaith, yn siarad iaith ac yn ysgrifennu iaith. Ac rydym ni'r Cymry'n gallu gwneud y pump o bethau yna mewn o leiaf dwy iaith. Dyna hefyd oedd hanes Iesu o Nasareth. Ei famiaith oedd Aramaeg, iaith oedd yn cael ei siarad yn eang iawn trwy'r Dwyrain Canol ar un adeg. Erbyn heddiw, ychydig llai na miliwn o bobol sy'n siarad Aramaeg, a hynny mewn sawl tafodiaith, fel yn nyddiau'r Testament Newydd. Roedd Iesu a'i ddisgyblion yn cael eu hadnabod fel pobol o Galilea yn ôl eu hacen, fel rydym ni heddiw yn adnabod pobol o wahanol rannau o Gymru yn ôl eu hacen. Byddai Iesu hefyd yn darllen ac yn deall Hebraeg,

sef iaith Ysgrythurau'r Iddewon ac iaith wreiddiol ein Hen Destament ni, ac yn gyfarwydd â thrydedd iaith – sef Groeg, 'iaith swyddogol' y Dwyrain Canol.

Iaith y Deyrnas

Ond roedd Iesu Grist hefyd yn siarad iaith arall. Roedd e'n siarad trwy ddamhegion er mwyn cyhoeddi a chyfleu natur Teyrnas Dduw, sy'n gyflwr yn hytrach na lle. Meddai Iesu, 'Ni fydd pobl yn dweud, "Dyma hi," neu, "Dacw hi," edrychwch, y mae teyrnas Dduw yn eich plith chwi,' neu yn ôl cyfieithiad arall, 'mae Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi.' Mae'r ddau yn gywir. Ym mherson Iesu Grist, roedd teyrnas Dduw wedi ymgnewdoli ymhlith y bobol ('Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw yn ein plith ni.' Ioan 1:14) ond mae e hefyd yn dweud bod y potential i wireddu teyrnas Dduw y tu mewn i bawb. I ambell un, fe all y

sylweddoliad yna ddod mor sydyn â fflach o fellten; yn achos eraill mae'n cymryd amser i ddysgu iaith y Deyrnas anweledig, fel pob iaith arall.

Bodolaeth y Deyrnas

Mae'r Deyrnas yn bodoli lle mae ewyllys Duw yn troi'n realiti ymarferol. Mewn pob gweithred o garedigrwydd anhunanol, mewn pob aberth a maddeuant a thrugaredd, yno mae Teyrnas Dduw yn bodoli. Onid Teyrnas Dduw yw'r cyflwr o fodolaeth nefolaidd lle mae harmoni rhwng y Creawdwr a'i greaduriaid a'i greadigaeth, ar y ddaear hon, yn y byd a'r bywyd hwn? Fel dynoliaeth, rydym yn dal i fod ymhell, bell o'r diwrnod pan fydd ewyllys Duw yn cael ei wneud 'megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.' Ond mae amser yn brin. Brysied y dydd cyn bod hi'n rhy hwyr, cyn bod hunanoldeb a thrachwant dynoliaeth yn dinistrio'r byd hwn y rhoddodd Duw i ni i fyw ynddo.

Alun Lenny

DWEUD STORI

Mae dweud stori'n dipyn o gamp. Arferai'r Iddewon glywed storiâu o'u Beibl a defnyddiodd Iesu ddamhegion i ddysgu'r bobl. Mae bron pawb yn hoffi stori. Gellid dweud mai un stori fawr yw'r Beibl. Ni olyga hyn ei fod yn ddychmygol. Yn hytrach cyhoeddi'r neges a wna am weithgarwch Duw yn y byd. Defnyddia pregethwyr ddarluniau i egluro eu neges. Cyflëir stori y Beibl i blant mewn cyfrolau fel *Beibl Y Plant Mewn Lliw*. Ac fe bortreadir bywyd Iesu mewn ffilmiau fel *The Greatest Story Ever Told*. Mae stori'n cynnwys cymhelliad, cyffro a chanlyniad. Gellid dweud stori o sawl persbectif, e.e. y mab afradlon, y tad amyneddgar neu'r brawd crintachlyd. Defnyddiwch eich dychmyg i ddisgrifio cymeriadau'r stori.

Awgrymiadau

Ar ddechrau'r stori rhowch gyfarwyddiadau i'r gynulleidfa er mwyn i'r gwrandawyr wybod sut i ymateb yn briodol, e.e. pan godaf fy llaw byddwch dawel.

Ceisiwch gael y gynulleidfa i gymryd rhan trwy ofyn cwestiynau ac ailadrodd llinellau. Oedwch yn ystod y stori i greu

tyndra, amrywiwch eich llais a siaradwch mewn brawddegau byrion. Amrywiwch y cyflwyniad trwy ddefnyddio geiriau gwirion, seiniau smala ac wynebwhit-whit. Cyfathrebwch â'ch bysedd a dwylo. Cadwch *eye contact* â'r gynulleidfa wrth ddweud y stori.

Trwy'r cyfan byddwch yn: Weladwy, clywadwy a dealladwy Pwyllog, clir ac ystyrlon Diddorol, syml a chryno.

Sach o dato

Dyma enghraifft o stori Dafydd a Goliath:

Roedd hi'n unfed awr ar ddeg ar Israel ... unfed awr ar ddeg ... unfed awr ar ddeg. Bu brwydro chwyrn fel ei a chath rhwng yr Israeliaid a'r Philistiaid am flynyddoedd mawr. Roedd milwyr Israel nawr mor nerfus â deintydd llew. Pam hynny? Am fod y cawr Goliath yn ddigon mawr i hala blynyddoedd arnynt. Roedd yn ddigon mawr i'r brenin Saul hyd yn oed alw chi arno. Roedd gan y clampyn hwn o ddyn dalcen caled, llygaid llym, trwyn crwca a cheg fawr. Beiddiai neb ei herio ar faes y gad er iddo wawdio Duw Israel.

Ond dywedodd Dafydd, byddai Duw yn ymladd drosto ... Duw yn ymladd drosto ... Duw yn ymladd drosto. Pwy oedd Dafydd? Bachgen oedd Dafydd mor fach â thrwyn llygoden yn ymyl y whompyn hwn o



GOFALAETH BRO MORGANNWG

Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn diwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel Penarth.

Am fanylion, cysyllter ag Alwena Harries, ysgrifenyddes Bethel.

Ffôn: 02920 700272

Symudol: 07891 587373

E-bost: alwenaharries@gmail.com

ddyn. Rhedodd i'r blaen fel cwthwm o wynt gan hyrddio carreg o'i ffon-dafll i ganol talcen Goliath. Tarodd ef â'r fath glatsien nes fod ei glustiau'n canu. Ac yn wir roedd hi wedi canu ar Goliath. Siglodd fel tarw ar gefn beic gan gwmpo i'r llawr fel sach o dato. Roedd mor farw â dannedd dodi dodo.

Beth ddigwyddodd wedyn? Trodd popeth yn gawlach ym myddin y Philistiaid. Aeth fel ffair ffyliaid yno. Ffoesant yn ôl i'w gwlad eu hunain. Cwrsodd yr Israeliaid nhw bell bant o'u tir. Llongyfarchodd pawb Dafydd fel pencampwr Israel. A dyma bobl Israel yn llawenhau yn yr Arglwydd eu Duw ... llawenhau yn yr Arglwydd eu Duw ... llawenhau yn yr Arglwydd eu Duw!

Peter Davies

Yr Adran Gydenwadol

Gweithio drwy argyfwng i aildanio gweinidogaeth i blant – yng Nghymru

Yn [Cenn@d](#), rhif 119 (7 Mehefin), cafwyd adroddiad gan Aled Davies yn rhannu o'i brofiadau ar ôl mynychu cynhadledd Ewropeaidd ar waith plant yn Hwngari yn ddiweddar. Yn yr ysgrif ddilynol hon mae'n rhannu ei argraffiadau o ran perthnasedd hynny i'n sefyllfa ni yma yng Nghymru.

Yn ystod y mis a aeth heibio rwyf wedi cael cyfle i ymweld â phedwar digwyddiad gwahanol, a hynny yn rhinwedd fy ngwaith gyda'r Cyngor Ysgolion Sul. Mae'r pedwar ymweliad hyn yn eu tro wedi fy helpu i ddatblygu gweledigaeth a chynllun gweithredu o ran rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu, a sut y gallwn symud ymlaen gyda'n gweinidogaeth a chenhadaeth ar gyfer eglwysi Cymru. Roedd hyn yn amserol iawn o ran gwaith cyfredol y Cyngor Ysgolion Sul, gan fod ein cynllun gwaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn y broses o gael ei ailddiffinio i gyfarfod ag anghenion ein cyfnod. Wedi tair blynedd hynod heriol i waith plant yn ein heglwysi, daeth yn amser i feddwl o ddfri sut mae modd cyrraedd y 95% o blant nad ydyn nhw bellach yn rhan o fywyd yr eglwys mewn unrhyw ffordd. Ar yr un pryd mae angen i ni gofio bod yna blant yn dal yn ein mysg, a bod angen meddwl sut y gallwn eu helpu i ddod yn ddilynwyr a disgyblion i Iesu trwy'n cynlluniau dysgu a'r modd y gallwn eu cynnwys yn ein haddoliad.

Bu disgwyliad gan lawer y byddai pethau'n raddol yn mynd yn ôl i 'fel roedden nhw cyn Covid', ond y realiti mewn llawer o lefydd yw nad yw hynny wedi digwydd, a bellach mae angen meddwl am ffyrdd newydd a gwahanol. Rhaid derbyn bod patrymau'r Sul wedi newid, ac arferion teuluol wedi newid, a bod angen modelau neu gynlluniau gwahanol wedi'u teilwra ar gyfer sefyllfa pob un gymuned, boed ddinesig neu wledig. Mae ffactorau fel nifer ac oed gwirfoddolwyr, adeiladau ac adnoddau i gyd yn effeithio ar yr hyn y mae modd i ni ei ddarparu yn lleol.

Mewn llawer man ni fydd cynnal cyfarfod wythnosol bellach yn bosib nac yn ymarferol, ac efallai na all un eglwys gynnal y gweithgarwch fel mewn cyfnod a fu. Mae'n bosib mai un cyfarfod misol, rhyngwadol, efallai yn yr ysgol ar nos lau, fydd y ffordd ymlaen. Y gofid ar hyn o bryd yw clywed cynifer yn adrodd yn ôl gan



Aled Davies a'r criw fu'n gyfrifol am drefnu'r gynhadledd yn Hwngari

ddweud, 'Does 'na ddim plant acw erbyn hyn'. Y gwir plaen yw bod y plant yn dal yno yn ein cymunedau, ond nad yw'r eglwysi'n gallu darparu cyfleon ar eu cyfer.

Bydd llawer o arweinwyr a chynulleidfaoedd, wrth fedyddio plant, yn addo gerbron Duw eu bod yn cynnig 'hyfforddiant yn yr efengyl i'r plentyn hwn a'r holl blant eraill yn ein mysg', ond eto'n torri'r adduned hwnnw wrth i'r gwasanaeth bedydd ddod i'w derfyn. Tydi parhau i fedyddio, heb gynnig unrhyw gefnogaeth i'r plant a'u teuluoedd, ddim yn ddigon da! Cofiaf stori ar wefan Cymru Fyw y BBC bedair mlynedd yn ôl, lle roedd y Parch. D. Ben Rees yn cwestiynu a fyddai yna eglwysi Cymraeg yn dal yn agored yn 2050. Mae'r hyn sydd wedi digwydd ers hynny, dros gyfnod byr o bedair blynedd, yn frawychus, ac erbyn hyn mae'n gwbl gwbl allweddol ein bod yn ymrwymo i wneud ailgysylltu â phlant a theuluoedd yn flaenoriaeth uwchlaw pob dim arall.

Wrth baratoi ar gyfer y gynhadledd yn Hwngari, yr un neges oedd cynrychiolwyr y gwledydd, sef bod yna argyfwng ym maes gwaith plant, a bod angen aildanio'r gwaith ar fyrder. Ond mae'n waith heriol ar y gorau, ac ar adegau yn unig iawn – a dyna werth cydgyfarfod ag eraill bob amser, i ysbrydoli a chalonogi. A dyna'r hyn a brofais innau dros y mis a aeth heibio.



Nifer o gyhoeddwy'r Cymreig yn cyfarfod ar stondin Cyhoeddi Cymru yn y Ffair Lyfrau yn Llundain

Aeth yr ymweliad cyntaf â fi i'r Ffair Lyfrau Ryngwladol yn Llundain, ac roedd yn gyffrous gweld y miloedd o bobl sy'n rhan o'r diwydiant cyhoeddi yn cyfarfod i drafod cytundebau, cyfieithu ac addasu cyfrolau o bob math. Roedd gan Gyhoeddi Cymru stondin yno, yn atgoffa'r diwydiant bod yna gyhoeddi byrlymus yng Nghymru, yn gyhoeddwy'r ac argraffwyr, a'n bod yn rhan o ddiwydiant byd-eang enfawr. Yn yr un ffordd, roedd yn braf i mi gael cyfarfod â'r cyhoeddwy'r Cristnogol, a gweld ehangder a chreadigrwydd y dewisiadau oedd ar gael.

Wedi dau ddiwrnod o grwydro llawr y ffair, roedd nifer o gyfrolau wedi denu fy sylw. Yn eu plith roedd llyfr o storïau Beiblaidd yn cynnwys sgrin LCD ar ffurf llechen, â stylus pwrpasol, fel bod y plant yn gallu tynnu lluniau arno a'u cadw fel cofnod. Hwn fydd y llyfr cyntaf yn y Gymraeg efo sgrin ddigidol oddi mewn iddo. Roedd llyfr arall yn cynnwys 60 botwm ar y clawr, ac wrth wasgu'r botymau a lluniau anifeiliaid



arnynt roedd y llyfr yn gwneud swm yr anifail perthnasol. Llyfr arall ar gyfer y Nadolig fydd cyfrol o garolau i blant, gyda phiano'n cael ei bweru gan fatris wedi ei ludio ar glawr y llyfr.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Gweithio drwy argyfwng i aildanio gweinidogaeth i blant – yng Nghymru (parhad o dudalen 1)

Mewn oes lle na fydd llawer o blant yn clywed straeon Beiblaidd yn rheolaidd, mae llyfrau fel hyn, a fydd yn cael eu prynu gan rieni dros gyfnod y Nadolig, yn hollbwysig.

Gall pob un ohonom fod yn rhan o hyn, drwy brynu llyfrau i'w rhannu i blant, efallai i wyrion ac wyresau, neu orwyrion. Mae modd rhoi llyfrau i ysgolion lleol hefyd, neu i blant yn ein cymdogaeth. Dyma weithred syml y gall pawb ei gwneud, gan rannu newyddion da yn ein cymunedau.



O'r Ffair Lyfrau, daeth cyfle wedyn i fynychu cynhadledd trefnyddion gwaith plant Ewropeaidd yn Hwngari. Roedd 80 ohonom yno, i gyd yn wynebu'r un heriau, yn cael rhannu pryderon a gofidiau, ond wrth fod yng nghwmni criw oedd yn teimlo'n angerddol dros bwysigrwydd cenhadaeth i blant, fe droes y sgwrs yn un gynhyrfus yn fuan iawn, yn sôn am y cyfleoedd a'r posibiladau.

Gweithio drwy argyfwng i aildanio'r gwaith oedd y ffocws. Diolch am gyfle i annog ein gilydd, ac am gael ein hatgoffa o bwysigrwydd y gwaith hwn. Gobeithio bod yr 80 ohonom, wedi dychwelyd i'n gwledydd, nid gyda'r gair 'argyfwng' yn aros yn y cof, ond yr angerdd i 'aildano' yn gyrru ein gwaith.

Ac i mi, bu'n brofiad cyffrous wrth wrando ac elwa o brofiadau eraill, a sylweddoli ein bod i gyd yn rhan o'r un gwaith. Dyma brofiad y gallwn ninnau elwa ohono yng Nghymru hefyd. Bydd llawer mewn eglwysi lleol wedi digalonni, ac efallai ddim yn gweld y gallan nhw wneud fawr ddim ar eu pennau eu hunain. Byddai cyfarfod yn lleol gydag eglwysi eraill o draddodiadau gwahanol yn gyfrwng gwych i'n hatgoffa bod yna eraill allan yna'n rhannu'r un weledigaeth â ni. Un flaenoriaeth i mi am y flwyddyn nesaf fydd trefnu nifer o gyfarfodydd mewn cylchoedd lleol i drafod pa waith sy'n digwydd yno'n barod, a pha weinidogaethau newydd y gellid eu datblygu.

Erbyn hyn mae 'na gyfoeth o adnoddau ar gael ar gyfer cynnal ysgolion Sul, clybiau plant ac ieuentid, addoliad teuluol creadigol a gwaith ysgolion. Bu rhai'n cwestiynu gwerth datblygu adnoddau fel *Llan Llanast*, *Chwarae a Chredu* a *Roots*, yn wyneb y nifer bychan o ddefnyddwyr. Onid oes angen edrych ar hyn o gyfeiriad gwahanol, a meddwl sut gallwnnigynyddu'r defnydd o'r adnoddau gwerthfawr hyn? Yr her i ni ar hyn o bryd yw defnyddio'r adnoddau hyn er mwyn cyfoethogi profiad plant yn ein gweithgaredd eglwysig. Mae angen adnoddau creadigol a chyfoes arnom o hyd, o wefannau sy'n cynnwys adnoddau digidol a chaneuon Cristnogol cyfoes i adnoddau lliwgar i'w rhoi yn nwylo ein plant.



Criw o blant yn mwynhau ar stondin yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd

Wedi dychwelyd o Hwngari, daeth yn amser gosod stondin yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri, a threulio wythnos yno'n cyfarfod cannoedd o blant ac arweinwyr, yn weinidogion, athrawon ysgol Sul ac athrawon ysgol. Braff oedd cael ein hatgoffa o chwilfrydedd ysbrydol y plant, gan dynnu sylw unwaith eto at bwysigrwydd cynnig cyfleoedd iddynt drafod y ffydd. Ond cafwyd nifer o sgysiau gan arweinwyr hefyd yn digalonni wrth adrodd nad oes gwaith plant yn eu cylch, a bod y plant wedi diflannu. Efallai eu bod yn anweledig, ond maent yn dal yno, a cheisiwyd annog pawb i feddwl yn greadigol am yr hyn sy'n bosib. Ac fel y bu i'r gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol ymuno â ni i fod ar faes Eisteddfod yr Urdd, efallai y gallwn ninnau hefyd fod yn 'halen a goleuni' wrth ymuno â gweithgareddau'r Urdd neu'r Ffermwyr Ifanc yn ein cymunedau lleol.



Y ddau gylchgrawn a gyhoeddir gan Roots bob deufis

Ychydig ddyddiau wedi dychwelyd o Llanymddyfri, roedd Llundain yn galw unwaith eto, y tro yma i gynhadledd 48 awr ar gyfer tîm cynhyrchu *Roots*, yn ysgrifenyddwyr a golygyddion, a ninnau fel rheolwyr. Mae *Roots* ar fin ailfrandio'i adnoddau wythnosol ar gyfer plant a phob oed, a chafwyd cyflwyniadau graenus gan y tîm golygyddol yn rhannu eu cynnwyr wrth baratoi i lansio ym mis Gorffennaf eleni. Gwariwyd swm sylweddol ar wefan newydd, a helaethu'r adnoddau yn y cylchgronau. Eto, roedd yn gynhyrfus bod ynghanol y bwrlwm hwn, a thystio i frwdfrydedd tîm ymroddedig o bobl sy'n paratoi adnoddau cyfoes a pherthnasol ar gyfer pob wythnos o'r flwyddyn ac sy'n addas ar gyfer y Sul a chyfarfodydd canol wythnos.

Mae dewis wythnosol o adnoddau Cymraeg ar gael gan *Roots* hefyd, gan gynnwys gweddïau, dwy daflen waith i blant a dewis o emynau. Gall *Roots* fod yn adnodd amhrisiadwy i'n hysbrydoli i greu gwasanaethau creadigol a pherthnasol i bob oed. Cofiaf rywun yn dweud wrthyf un tro fod yna wahaniaeth mawr rhwng yr hyn mae athrawon ysgol Sul yn chwilio amdano, a'r hyn sydd ei angen arnynt go iawn. Efallai y bydd rhai'n credu bod detholiad o daflenni gwaith syml yn ddigonol, ond yr hyn sydd ei 'angen' yw deunydd sy'n helpu i greu disgyblion a dilynwyr gydol oes i Iesu.

Wedi mis o grwydro, mae dau beth wedi dod yn gliriach yn fy meddwl. Mae gennym stori i'w rhannu a chenhadaeth i'w chyflawni, ac mae'r hyn sydd ei angen arnom i wneud hynny o ran adnoddau eisoes yn ein meddiant.

OND mae angen dybryd am weithwyr a gwirfoddolwyr i aildanio'r gwaith yn lleol, ac i ddarganfod y ffyrdd gorau o gyflawni hynny.

'Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion, "Mae'r cynhaeaf mor fawr, a'r gweithwyr mor brin! Felly, gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd.'" (Mathew 9:37; beibl.net)

Yn rhifyn yr wythnos nesaf o *Cenn@d* byddwn yn rhannu erthygl a fydd yn cynnwys syniadau trafod er mwyn gwireddu hynny.

Medalau Gee 2023

Cofiwch mai'r dyddiad olaf i dderbyn enwebiadau ar gyfer 2023

yw

30 MEHEFIN

Manylion llawn a ffurflenni cais ar gael o wefan:

www.ysgolsul.com

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

28 Eiriolaeth Abraham (Rhan 2)

Darllen: Genesis 18:22-33

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 108)

Wedi edrych yr wythnos diwethaf ar ymdrech Abraham i geisio deall gwaith Duw, yn arbennig ei waith yn diogelu cyfiawnder, yr wythnos hon rydym am edrych ar ei eiriolaeth dros y dinasoedd hyn. Mae eisoes wedi cael gwybod fod Duw am ymweld â Sodom a Gomorra, ac ar ddechrau adnod 23 cawn y darlun cyfarwydd ohono'n nesáu at Dduw. Mae yna ymwybyddiaeth real o'i annheilyngdod yn dod i'r fath le, 'Dyma fi wedi beiddio llefaru wrth yr ARGLWYDD, a minnau'n ddim ond llwch a lludw' (adn. 27). Yn ddiweddarach yn yr Hen Destament, cawn air Duw drwy Jeremeia yn ein hatgoffa mai gwahoddiad Duw yw sail ein hyder i ddod, "Paraf iddo nesáu, ac fe ddaw ataf; canys pwy, o'i ewyllys ei hun, a faidd ddod ataf?" medd yr ARGLWYDD' (Jeremeia 30:21). Ond, wedi cydnabod hyn, mae Abraham yn dod, a braidd yn dweud nad yw'n dymuno gweld dinistr y dinasoedd, ac yntau'n dweud dim. Mae am nesáu felly gyda hyder ffydd, a hynny at yr Un sy'n datguddio'i hun fel gwrandawr gweddi.

Diddorol nodi mai hon yw'r weddi gyntaf sy'n cael ei chofnodi yn y Beibl, gweddi i arbed Sodom! Nid bod Abraham eisiau byw yn y fath le, ond, fel yng ngweddi y Beibl, nid yw ein golwg ar bechod yr un fath â'n golwg ar bechaduriaid. Nid yw Duw yn ymhyfrydu ym marwolaeth yr annuwiol, ac ni ddylai ei bobl wneud hynny chwaith. Mae'n ddiddorol sylwi sut mae Abraham yn symud yn ei weddi o ofyn am waredigaeth y cyfiaw yn adnod 23 i weddi am arbed y lle cyfan oherwydd presenoldeb y cyfiaw. Afraid dweud y dylem fod yn bobl sy'n gweddi nid yn unig drosom ein hunain ond dros eraill, a minnau'n aelodau o'r un teulu, y teulu dynol cyfan.

Gyda golwg ar weddill y weddi, bydd rai crynhoi fy sylwadau dan bum pennawd.

Yn gyntaf, mae Abraham yn amlygu ffydd ryfeddol wrth weddi. Mae'n credu yng nghyfiawnder Duw, yr un na fydd yn difa'r cyfiaw gyda'r anghyfiaw. Yn y byd mae pawb yn gymysg: ymysg y gorau mae rhai drwg, ymysg y drygionus mae rhai gwell, ac yn Sodom mae Lot! Er bod y cyfiaw yn dioddef gyda'r anghyfiaw, eto nid yw eu rhan fel y rhai sydd wedi gwrthod credu. Fel y sylwyd yr wythnos diwethaf, fe weinydda Barnwr yr holl ddaear farn gyfiaw.

Yn ail, rhaid sylwi ar ostyngeddrwydd Abraham yn y gwaith yma o weddi. Yr oedd nid yn unig yn ymwybodol iawn o'i gyflwr ei hun (adn. 27), ond yr oedd yn gwybod hefyd mai Duw'r gogoniant oedd Duw. Mae'r fynedfa sydd inni yn destun rhyfeddod tragwyddol. fel yn hanes Dafydd: "Pwy wyf fi, O Arglwydd DDUW, a phwy yw fy nheulu, dy fod wedi dod â mi hyd yma?" (2 Samuel 7:18). Wedi dod, mae yna ymwybyddiaeth barhaus o'r gofal i sicrhau nad yw'r hyder yn troi'n hyfdra, ac fe gawn Abraham droeon yn pledio am drugaredd wrth eiriol, 'Yna dywedodd, "Na ddigied yr ARGLWYDD os llefaraf"' (adn. 30). Gweler hefyd adnodau 31 a 32.

Yn drydydd, cawn Abraham yn cymryd agwedd obeithiol iawn tuag at y sefyllfa yn y dinasoedd. Braidd nad yw'n gweddi, gan ein hatgoffa ni ei bod yn well gwyro tuag at feddwl yn rhy dda o sefyllfa nag fel arall. Felly hefyd cawn ein dysgu i ddefnyddio pob cyfle a gawn ger yr orsedd i geisio trugaredd a gras yn achos y sefyllfa oedd mwyaf anobeithiol. Rhaid cydnabod hefyd yr hyder sydd yn ei weddiâu. Pan oeddem yn byw yn y gogledd roedd 'na sôn am bobl 'powld', ac mae Abraham yn bowld gyda Duw mewn rhyw ystyr. Mae'n setlo ar rif, ac wedi llwyddo yn parhau i leihau'r rhif hwnnw. Wrth i'r Arglwydd ganiatáu, mae yntau'n pledio'r caniatâd hwnnw i ofyn mwy eto fyth.

Yn bedwerydd, rhaid imi gyfeirio at llwyddiant Abraham mewn gweddi, nid am

fod hyn yn syndod ond am fod y llwyddiant mor amlwg. Daeth ei wŷr Jacob i wybod yn dda am bwysigrwydd a bendithion ymgodymu â Duw (Genesis 32), ac felly Abraham yma. Da cofio'n barhaus mai ewyllys Duw yw bendithio; ei ewyllys yw ateb gweddi; mae'n araf i ddigio ac yn helaeth o ran ei drugaredd. Mae Abraham yn gofyn ac yn derbyn, yn ceisio ac yn cael, yn curo a'r drws yn cael ei agor iddo. Yn wir, nid yw'n peidio caniatáu tra mae Abraham yn parhau i ofyn.

Yn olaf, sylwch ar y clo yn adnod 33. Mae'r Arglwydd yn symud wedi i Abraham orffen gweddi, wedi iddo orffen dod â'r sefyllfa o flaen Duw. Un sy'n awyddus i wrando gweddi ac yn abl i ateb gweddi yw'r Arglwydd, ac nid yw'n blino ar gri ei blant: 'Nid aeth llaw'r ARGLWYDD yn rhy fyr i achub, na'i glust yn rhy drwm i glywed' (Eseia 59:1). Cymaint mwy yw'r gwirionedd nad yw'n blino ar eiriolaeth ei Fab wrth iddo ddadlau ei fywyd a'i farwolaeth dros ei bobl. I'r awdur at yr Hebreaid, mae gwaith Iesu fel ein Harchoffeiriad yn y nefoedd yn arwain at y gyffes: 'Dyna pam y mae ef hefyd yn gallu achub hyd yr eithaf y rhai sy'n agosáu at Dduw trwyddo ef, gan ei fod yn fyw bob amser i eiriol drostynt' (Hebreaid 7:25).

1. Sut fydddech chi'n diffinio'r gwahaniaeth rhwng hyder a hyfdra o ran ein perthynas â Duw yn Iesu Grist?
2. Meddylwch am enghreifftiau lle rydych chi wedi tybio'r gwaethaf am sefyllfa neu wedi tybio'r gorau am sefyllfa. O ystyried eiriolaeth Abraham a derbyn bod angen inni wybod cymaint â phosibl am sefyllfa neu berson, beth yw peryglon meddwl yn rhy dda neu'n rhy ddrwg?
3. Pryd y bu ichi ymgodymu â Duw ddiwethaf? Fe gofiwch i Jacob gael ei glwyfo yn y gwaith (Genesis 32:31), beth oedd y canlyniadau i chi?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 18 Mehefin, am 7.30yh

Bydd Nia Roberts yn ymweld â Llangrannog i ddathlu bywyd a gwaith arloesol Sarah Jane Rees, neu Cranogwen. Cawn ymuno â'r orymdaith i ddadorchuddio cofeb newydd iddi yn ei phentref brodorol a mwynhau canu mawl brwd o Gapel y Wig. Ymhlith y gwesteion y mae Llywydd y Senedd, Elin Jones.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 18 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp

Teulu: 2 - Euros Rhys yn cyflwyno'r ail raglen mewn cyfes fer am aelodau o'r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

Sul, 18 Mehefin, am 12yp

Oedfa dan ofal Elin Owen a chriw pererindod Cadfan, Bangor

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddwr Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Tim Keller 1950–2023

Trist oedd clywed am farwolaeth y gweinidog, yr awdur a'r ysgolhaig Cristnogol Tim Keller yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Ychydig iawn o awduron



Cristnogol cyfoes sydd wedi cael cymaint o ddylanwad yn fyd-eang. Rwyf wedi darllen peth wmbredd o'i lyfrau dros y blynyddoedd ac y mae ei bodfan o bregethau sef *Gospel for Life* wedi bod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a lluo o fendithion i mi.

Arddull arbennig

Roedd ei arddull wrth ysgrifennu a phregethu yn ddiroddres, sylweddol a Beiblaidd. Yr oedd yn amlwg yn ddarllenwr mawr a gwelid ôl ei ysgolheictod a'i ddeallusrwydd yn ei gyfrolau swmpus. Diolch i'r drefn roedd ganddo hefyd hiwmor braf a ddeuai i'r amlwg yn fynych yn ei lyfrau a'i bregethau. Roedd yn gyfathrebwr heb ei ail oedd yn gallu cyflwyno materion Cristnogol mewn modd eglur. Ymgodymai'n fedrus â safbwyntiau ac agweddau o'r meddwl modern sy'n aml yn hunandybus ac yn ddfriol o farn pobl nad ydynt yn cytuno â hwy. Daeth bychanu ffydd a dilorni Duw a'i air yn boblogaidd iawn, ond safai Keller yn gadarn gyda'i resymu Beiblaidd ddi-feth. Un peth amdano oedd nad oedd yn lladd ar bobl oedd o safbwynt gwahanol iddo fel y mae rhai arweinyddion Cristnogol yn ei wneud. Yn hytrach roedd yn delio gyda'r mater oedd dan sylw gan fynegi ei safbwynt yn ddiamwys.

Cefndir

Ganwyd Timothy James Keller yn Allentown, Pennsylvania, yn fab i Louise A. Keller (Clemente) a William B. Keller, oedd yn rheolwr hysbysebu ar y teledu. Graddiodd ym Mhrifysgol Bucknell (BA, 1972), Gordon-Conwell Theological Seminary (M.Div., 1975) a Westminster Theological Seminary, lle'r enillodd radd D.Min. ym 1981. Yn ystod ei blentynod mynychai ei deulu eglwys Lutheraidd ac fe ddaeth yn Gristion tra bu'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Bucknell. Cyflogwyd ef am gyfnod gan yr InterVarsity, oedd yn


gweithio ymhlith myfyrwyr. Ordeiniwyd ef gan y Presbyterian Church in America (PCA) a gwasanaethodd fel gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd West Hopewell yn Virginia am 9 mlynedd ac fel cyfarwyddwr plannu eglwysi'r PCA. Darlithiodd hefyd yn y Westminster

Theological Seminary yn Philadelphia.

Redeemer

Ym 1989 neilltuwyd Keller gan ei enwad i gychwyn y Redeemer Presbyterian Church yn Manhattan. Tyfodd yr eglwys o 50 o aelodau ar y cychwyn i 5,000 o addolwyr ar y Sul erbyn 2008. Mae'r eglwys yn gweld mai ei phrif faes cenhadol yw pobl ifanc broffesiynol ddinesig. Mae'n eglwys Americanaidd anarferol gan fod mwyafrif y gynulleidfa yn oedolion sengl. Mae'n gwrthod ochri gydag unrhyw blaid wleidyddol ond yn barod i wynebu a thrafod materion cyfoes heriol. Mae llawer o'r aelodau o dras Asiaidd ac yn gweithio mewn meysydd creadigol ac ariannol.

Gwrthodai Keller ddefnyddio'r label 'efengylaidd' oherwydd ei gysylltiadau gwleidyddol a ffundamentaltaidd gan alw ei hun yn hytrach yn 'uniongred'. Credai fod tröedigaeth bersonol yn hanfodol ac yn awdurdod y Beibl. Ystyriai ei hun yn traddodiad hwnnw yn ddigon parod i'w gondemnio am rai agweddau o'i eiddo.



Awdur toreithiog

Yr oedd yn awdur toreithiog ac mae'n werth darllen ei gyfrolau ardderchog. Pan fyddaf yn dod ar draws pobl sy'n dangos diddordeb mewn Cristnogaeth byddaf yn rhoi copi iddynt o *The Reason For God: Belief in an age of scepticism*. Y mae'r llyfr hwn yn delio'n rhesymegol â'r prif gwestiynau a'r amheuan a gyfyd ym meddyliau pobl yr oes bresennol am Dduw, bywyd a ffydd. Os nad ydych wedi darllen y gyfrol, ewch ati yn ddiymdroi.

Cyfrolau eraill dylanwadol ganddo rwyf wedi eu darllen yw *Preaching: Communicating faith in an age of scepticism*; *Prayer: Experiencing Awe and Intimacy with God*; *Prodigal God*; *Generous Justice*; *Gospel in Life: Grace changes everything a Centre Church Europe*. Ac wrth gwrs ei esboniadau Beiblaidd, *King's Cross* (Esboniad ar Efengyl Marc); *The Prodigal Prophet*, (Llyfr Jona), *Romans 1–7* a *Galatians* o'r gyfres For You.

Hoffwn eich cymell i ddarllen llyfrau Keller oherwydd y bydd yn brofiad adeiladol a heriol. Diolchwn i'r Arglwydd amdano ac am ei gyfraniad mawr i dystiolaeth Iesu Grist yn fyd-eang a hefyd yma yng Nghymru.

Alun Tudur

Cywilydd Mawr America

darlith gan Dr Jerry Hunter
am Robert Everett
7yh 21 Mehefin 2023
Capel Lôn Swan, Dinbych

'Cywilydd Mawr America:
Robert Everett
a'r ymgyrch yn erbyn
caethwasiaeth'

Darlith gan yr Athro Jerry Hunter am y Parchedig Robert Everett. Nifer cyfyngedig o glustffonau ar gael ar gyfer cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg.

Mynediad am ddim – croesewir cyfraniadau ar y noson. Gofynnwn i bawb gofrestru o flaen llaw yn enwedig os oes angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Mae archebu ymlaen llaw yn hanfodol

Llyfrgell Dinbych: 01745 816313
LlyfrgellDinbych@sirddinbych.gov.uk

Barn Annibynnol

Graig Ddi-sigl

'Y graig yn sownd o dan ein traed,' medd Huw Chiswell yn ei gân 'Y Cwm' ac onid oes hawl gan bob yr un ohonom deimlo sicrwydd a chadernid 'y graig' yn ein bywyd bob dydd?

Ond y gwir yw fod mwy a mwy yn teimlo nad oes daear gadarn yn sail i'n bywydau: costau byw'n cynyddu'n ddyddiol, pris nwyddau hanfodol yn codi allan o afael, unigolion a theuluoedd yn troi at fanciau bwyd, mwy a mwy yn ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd.

Dim bai ar Brexit!

Onid blaenoriaeth llywodraeth wâr a gofalgar yw sicrhau 'craig o dan ein traed'? Diolch am y taliadau a wnaed i helpu gyda phrisiau trydan a nwy – ond oni fyddai'n well gorfodi'r cwmnïau egni i ostwng y prisiau i bawb yn hytrach na rhoi ambell daliad fan hyn a fan draw? Clywn am elw ariannol anferth y cwmnïau egni a chyflogau breision eu penaethiaid – a dywed ambell sinig ei bod yn ymddangos fel pe bai grŵp o gyfoethogion yn Llundain yn creu rheolau er eu mwyn eu hunain ac nid er mwyn sicrhau cyfiawnder i'r bobl gyffredin. Wrth geisio gweld pam fod gwledydd Prydain mewn picil ariannol, cyfeirir at y rhyfel yn Wcráin a marchnadoedd byd-eang – does dim bai at Brexit, wrth gwrs!

Yn union fel newid hinsawdd a chynhesu byd-eang, mae costau byw cynyddol yn effeithio waethaf ar aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas – mae'r tywod o dan eu traed yn simsan.

Cyfeiria'r Iesu at 'y graig' ym Mathew 16:17 '... ti ydy Pedr. A dyma'r graig dw i'n mynd i adeiladu fy eglwys arni.' Pedr (*petros* = craig) oedd un o sylfeini'r Eglwys; Pedr gyhoeddodd yr Efengyl gyntaf ar ddydd y Pentecost a Phedr a ledodd yr Efengyl gyntaf i'r cenhedloedd. At hynny, cawn gyffes ffydd Pedr: *Ti yw Crist, mab y Duw byw* – cyffes sy'n dangos cred bersonol Pedr yng Nghrist y Meseia. Unigolion – fel yntau – a roddodd eu ffydd yng Nghrist yw'r Eglwys ar y ddaear.

Ymdebygu i Grist

Mae Pedr yn parhau â thema'r graig yn ei lythyr cyntaf pan ddywed:

Mae'r Arglwydd fel carreg sylfaen, ond un sy'n fyw. Dyma'r garreg a gafodd ei gwrthod gan bobl, ond roedd wedi'i dewis gan Dduw ac yn werthfawr iawn yn ei olwg. Felly wrth i chi glosio at Dduw, 'dych chi fel cerrig sy'n fyw ac yn anadlu, ac mae Duw yn eich defnyddio chi i adeiladu ei 'deml' ysbrydol.



Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg

CYFARFODYDD BLYNYDDOL 2023

Cyfundeb Dwyrain
Dinbych a Flint

Ein Siaradwyr Gwadd:



Dr Anthony Reddie

Dydd Mercher
28 Mehefin
4pm



Aled Lewis Evans

Nos Fercher
28 Mehefin
7.30pm



Mabon ap Gwynfor AS

Dydd Iau
29 Mehefin
4pm



Gareth Ffowc Roberts

Bore Gwener
30 Mehefin
10:00am

📅 28-30 Mehefin 2023

📍 Theatr Y Stiwt, Rhosllannerchrugog
LL14 1RB

Gwylwch y ffrwd fyw:

www.annibynwyr.cymru

Coleg yr Annibynwyr

Cynhelir cyfarfod i danysgrifwyr Coleg yr Annibynwyr am 18.45 ar nos Fercher 28 Mehefin yn ystod cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn y Stiwt Rhosllannerchrugog.

Pwrpas ein bodolaeth a'n Cristnogaeth yw ymdebygu i Grist. Ni fu tlodi – ysbrydol na chorfforol – erioed yn rhan o gynllun Duw ar gyfer ei bobl; mae tlodi yn mynd yn groes i ewyllys Duw. Yn wyneb pob argyfwng presennol, rhaid i Gristnogion barhau i estyn llaw; codi llais dros y di-lais a sefyll gyda'r difreintiedig gan roi ein ffydd yng nghariad trawsnewidiol Crist.

Eurig Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

EGLWYS YR ANNIBYNWYR CAPEL COFFA, CYFFORDD LLANDUDNO

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Capel Coffa wedi bod o dan weinidogaeth ran amser. Gydag ymddeoliad y gweinidog presennol ym mis Medi, dymuniad yr aelodau yw parhau gyda trefniant tebyg i'r dyfodol.

Gwahoddir gweinidogion o unrhyw enwad i ystyried yr her a'r cyfle a estynnir iddynt drwy fugeilio yr eglwys hon.

Am fanylion pellach cysyllter â chadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol:

Mrs Carol Edwards,
Dwyfor, 12 Lôn Goed,
Cyffordd Llandudno,
Conwy LL31 9HE.

Ffôn: 01492 581082

E-bost: carol.tanyberllan@yahoo.co.uk

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur

39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.comAlun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023

Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yn Y Stiwt, Rhosllannerchrugog

DYDD MERCHER, 28 Mehefin 2023

- 1.30 CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans
- 2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Gorrlewin Caerfyrddin 2022
(y Llyfr Gwyrdd)
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb *
Croesawu darpar-Lywydd newydd yr Undeb *
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2024
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
Y Genhadaeth Ddigidol
- 3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr
- 4.00 'Change and Continuity – Looking back or looking ahead? A Postcolonial conversation about Mission' ***
Anerchiad gan yr Athro Anthony Reddie
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams
- 5.30** Egwyl
- 6.00** Swper
- 7.30 CYFLWYNIAD: Beirdd ar y Ffin ***
Noson yng nghwmni beirdd lleol

DYDD GWENER, 30 Mehefin 2023

- 9.30** Defosiwn yng ngofal y Parchg Trefor Jones-Morris *
- 10.00 Cyfarfod Hanes: 'Damwain a hap, ac athrylith Richard Price (1723–91)' ***
Yr Athro Gareth Ffowc Roberts
Cadeirydd: Miss Joan Thomas
- 11.00** Te/coffi
- 11.30 Lansio Apêl Cymorth Cristnogol: Ffynhonnau Byw ***
- 12.00 CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Parchg Beti-Wyn James
Argraffiadau'r Llywydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb,
Miss Meryl James
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Eryn
Trosglwyddo'r Beibl i'r llywydd newydd
Gweddi: Parchg Robin Wyn Samuel
Eryn
Y Fendith
- 1.00** Cinio ac ymadael

DYDD IAU, 29 Mehefin 2023

- 9.30 CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, y Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans
- 10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Y Tyst
Etholiadau:
• 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
• Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
• cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn
- 11.00** Te/coffi
- 11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau
- 12.00** Cynllun Hyfforddi: Carwyn Siddall, Cydlynnydd
Hyrwyddo Gweinidogaethau
Y Panel Diogelu: Julie Edwards a Sian Jones
- 1.00** Cinio
- 2.00 CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *
Penderfyniadau:
Derbyn gweddill cofnodion y Llyfr Glas
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith
- 3.30** Te/coffi
- 4.00 Cyfarfod Heddwch: 'Beth ydy rôl Cymru yn y mudiad heddwch rhyngwladol yn yr G21ain?' ***
Mabon ap Gwynfor AS
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor
- 5.00** Egwyl
- 5.30** Swper
- 7.30 OEDFA O FAWL** yng Nghapel y Groes, Wrecsam, *
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
Galwad i addoli
Eryn
Darllen: Parchg Aled Davies
Gweddi: Parchg Dr Alun Tudur
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Eryn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Trefor Jones Morris
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Eryn
Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones
Eryn
Y Fendith

Dangosir Cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau

* Caiff y digwyddiadau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan
annibynwyr.cymru